**Cofnodion Drafft Grŵp Ecosystemau Rhostir a Glaswelltir Cymru**

Cyfarfod 4: 13eg Hyd 2009 – Tŷ Ladywell, y Drenewydd.

Yn bresennol:
Richard Evans LlCC
Carrie Rimes CCGC
Stuart Smith CCGC
Charles Morgan PONT
Helen Buckingham YG
Juliet Hynes PBC
Dave Lamacraft RSPB
Jan Sherry CCGC
Ivy Berkshire Flora locale

Ymddiheuriadau:
Sion Brackenbury Tir Comin Gŵyr a D a S Abertawe
Caroline Wilson SNP
Trevor Dines Plantlife
Julian Jones RWT ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru

| Eitem | Trafodaeth | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **1. Ymddiheuriadau** | Gweler uchod | | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol, y diweddaraf ar gamau gweithredu nad ydynt yn cael** | Cynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yng Nghofnodion cyfarfod 3.<br>Camau gweithredu heb eu cwblhau isod:<br><br>A2 – Cariwyd ymlaen | 1. TD i ddweud wrth bob grŵp am ychwanegu colofn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **sylw isod** | | arall i gofnodi hynt y camau gweithredu nes bydd y grwpiau wedi cael eu rhoi ar BARS. | |
| | A9 – Prosiect HEAP: DL wedi cael methodoleg HEAP. HEAP wedi ceisio plotio safleoedd cynefin rhostir tir isel posib yn Lloegr. Roedd gan CCGC brosiect tebyg gyda phrifysgol Reading ond ansicrwydd ynglŷn â beth ddigwyddodd iddo. Ydyn ni am fynd ar drywydd HEAP yng Nghymru? Dim ond pan fydd maint llain yn >30ha y caiff rhostir ei ystyried yn weithredol felly gallem ddefnyddio'r fethodoleg i nodi ardaloedd lle byddai modd ehangu lleiniau a'u cysylltu i greu rhostir gweithredol.<br>RE – yn werth aros am fap Landcover a gwaith dangosyddion cysylltedd LlCC a ddylai fod ar gael yn y gwanwyn. | 2. DL- cylchredeg gwybodaeth HEAP i'r Grŵp Rhostir a Glaswelltir. | Wedi'i wneud 15-10-09 |
| | A10 – wedi'i gario ymlaen. Awgrymwyd bod angen colofn ychwanegol yn y templed i gofnodi pwy sy'n cyfrannu'n ariannol. | 3. TD i sicrhau colofn ychwanegol ar y templed i gofnodi pwy sy'n ariannu cam gweithredu. | |
| | A17 – wedi'i gario ymlaen. Gweithredu ar ffurf Arolygu a Monitro – cyflwr safleoedd statudol? | 4. | |
| | A18 – wedi'i gario ymlaen. Y weledigaeth ar gyfer glaswelltir yr iseldir – angen edrych ar gynllunio tymor hir ar gyfer glaswelltiroedd iseldir, awgrymwyd is-grŵp i ymchwilio i hyn (drafft cyflawn erbyn Mehefin 2010). Aelodau JJ, HB, CR, SS, IB. Efallai y byddai'n fuddiol cynnwys Miles King hefyd. | 5. JJ i arwain y grŵp, holi Barbara (grŵp yr ucheldir) faint o amser a gymerodd i sefydlu gweledigaeth i'r ucheldir. Trefnu'r cyfarfod $1^{af}$. | Disodlwyd gan y bwriad mapio cyfleoedd a nodwyd ar gyfer cyfarfod 6. |
| | A21 – wedi'i gario ymlaen. Mae'r camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau yn weddol generig ar y funud, gellid eu gwneud yn fwy penodol drwy ychwanegu rhestr o safleoedd priodol at y | 6. TD i fynd â'r awgrymiadau hyn i'r Grŵp Rhywogaethau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blychau ardal LBAP. Gellid hefyd tynhau’r amserlenni. | | |
| | A28 – wedi’i gario ymlaen | 7. CM i anfon templed diweddaraf cynllun gweithredu’r ucheldir at NS | |
| | A29 – nid yw’r grŵp ucheldir yn ymdrin â glaswelltir sych asidig yr ucheldir yn y cynllun gweithredu gan nad yw’n gynefin BAP, ond ymdrinnir ag ef yn fwy cyffredinol o fewn y gwaith ucheldir. | | |
| | A32 – targedau dolydd iseldir diwygiedig wedi’u dadgyfuno | 8. CR i gylchredeg y targedau dolydd iseldir diwygiedig wedi’u dadgyfuno i LBAPs cyn gynted â phosib. | |
| | A39 – Camau gweithredu’r grŵp arbenigwyr rhywogaethau; cytunwyd ar amserlen er rhyddhau targedau rhywogaethau, gweler isod | | |
| | Gwneud yn siŵr fod y grwpiau priodol yn ymwybodol o’r Grŵp hwn ac yn gallu cyfrannu iddo. | 9. Pawb, awgrymu grwpiau / unigolion y dylid eu cynnwys ar ein rhestr gylchredeg er mwyn i JH gysylltu â nhw a’u hychwanegu. | |
| **3. Diweddariad o gyfarfod Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau** | Trafodaeth am adnoddau – dywedodd Diana Reynolds yn glir nad oes rhagor o adnoddau ar gael, ond bod rhaid i 5% o adnoddau pob adran o LlCC gael ei neilltuo i fioamrywiaeth (mae’r Gweinidogion wedi cytuno i hyn). | 10. JH i ofyn i Diana Reynolds egluro beth yn union mae 5% o Adrannau LlCC yn ei olygu? | Gwnaed hynny a chylchredwyd yr eglurhad |
| | Trafodaeth hefyd am bartner sefydliadau yn ymrwymo i ganiatáu i’w staff dreulio amser ar y Grwpiau Ecosystemau a | 11. Dim cynrychiolaeth o’r parciau cenedlaethol nac | Wedi’i wneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhywogaethau/Arbenigwyr Rhywogaethau. Er bod y penaethiaid a staff ar lawr gwlad wedi ymrwymo mae'n ymddangos bod anawsterau o hyd ar lefel rheolwyr canol. Mae Diana Reynolds yn mynd i godi'r pwynt hwn yn ei chyfarfod nesaf gyda phrif weithredwyr yn Ionawr 2010.<br><br>Dylem gofio bod pobl ar y grwpiau hyn i gynrychioli'u sefydliad felly gwnewch yn siŵr eich bod yn adrodd yn ôl i'ch cydweithwyr perthnasol (mae crynodeb 3 phwynt bwled o'r pwyntiau pwysicaf yn ddigonol) | Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn y cyfarfod heddiw. Bydd JH yn anfon copi at YNC a chrynodeb LBAP at Mike Howe.<br><br>12. JH i ofyn i Mike Howe (PC Penfro) a hoffai fynychu cyfarfodydd y Grŵp. | <br><br><br><br><br><br>Derbyniodd Mike y gwahoddiad ac mae ar y rhestr bostio |
| | Cysylltiadau ag ymchwil cyfredol – bydd aelod o'r gymuned ymchwil yn cael ei neilltuo i bob Grŵp Ecosystemau a Rhywogaethau (ôl-ddoeth. mwy na thebyg)<br><br>RE- cylchredodd gais i'r Grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau yn gofyn iddynt roi gwybod iddo am yr anghenion ymchwil fel y gall fwydo i gyfarfodydd ymchwil 6 misol DEFRA. Dylai'r Grŵp Rhostir a Glaswelltir ychwanegu anghenion ymchwil fel eitem sefydlog ar yr agenda a blaenoriaethu'r awgrymiadau cyn i RE fynd â nhw at DEFRA. Mae angen inni gynhyrchu syniadau cwbl gadarn, a bydd gan y rhai sy'n berthnasol i'r DU gyfan well gobaith. Angen iddynt ymdrin yn benodol â chyflawni'r Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth | 13. Os oes gan unrhyw un awgrymiadau am ymchwilwyr perthnasol a allai eistedd ar unrhyw grŵp, anfonwch nhw at JH<br>14. JH i ychwanegu anghenion ymchwil fel eitem sefydlog ar yr agenda<br>15. CR i anfon cynnig ymchwil ar wasanaethau ecosystem at RE | <br><br><br><br><br>Wedi'i wneud |
| | Grantiau £6-8 mil o dreial cynllun grantiau newydd CCGC (£40 mil ar gael i gyd); gobeithio y bydd pob Grŵp Ecosystemau a Rhywogaethau yn cyflwyno un prosiect. Rhaid gwario'r arian erbyn Mawrth 2010 | 16. JH i gylchredeg e-bost i'r Grŵp ac i'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfod ariannu | Wedi'i wneud – 14/10/09 |
| | Amserlen ar gyfer cynlluniau gweithredu a thargedau –<br>▪ Cynefinoedd presennol, cadw'r targedau fel y'u | 17. JS i gylchredeg amserlen i'r targedau a'r cynlluniau | Wedi'i wneud – 15/10/09 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gosodwyd gan adolygiad y DU yn 2006<br>▪ I gynefinoedd BAP newydd, dylid gosod targedau erbyn 1af Chwefror 2010<br>▪ Dylid cynhyrchu cynlluniau gweithredu i gynefinoedd BAP presennol erbyn 1af Chwefror 2010<br>▪ Cynefinoedd BAP newydd, dylid nodi camau gweithredu brys erbyn 1af Mehefin 2010, a chynllun gweithredu llawn erbyn diwedd Mawrth 2011 | gweithredu | |
| | Dywedodd CR fod cyfarfod HAP tir fferm isel y DU wedi'i gynnal (bu CR a Clare Burrows o Grŵp Ffermdir Cymru ymddo). Y teimlad cyffredinol oedd nad yw amcanion cyffredinol y grŵp yn glir. Y prif syniad yw eu bod yno i gysoni targedau .Mae Cymru a Lloegr yn cadw at dargedau HAP 2006, mae'r Alban yn eu cysoni â gwasanaethau ecosystem. Mae'n debyg y bydd y cyfarfod nesaf yn Birmingham yn y flwyddyn newydd. Hoffai'r cyfarfod rannu gwybodaeth yn arbennig ynglŷn â chynefinoedd â blaenoriaeth newydd, h.y. glaswelltiroedd metelaidd. Gofynnodd hefyd beth mae Cymru'n ei wneud gyda chynefinoedd Atodiad 1 a rhywogaethau Atodiad 2 (cyfarwyddebau'r UE). Y teimlad cyffredinol yw y dylai grwpiau gwreiddiol y DU barhau. Efallai fod angen inni drafod a mynd â hyn i PBC ar ryw bwynt. | 18. SS i basio gwybodaeth am osod targedau o ran glaswelltir metelaidd i CR i'w hanfon ymlaen at gysylltiadau yn yr Alban. | |
| **4. Glastir** | DL – Pecynnau rhanbarthol lefel mynediad yn cael eu paratoi. Maent wedi'u seilio'n fras ar yr ardaloedd LBAP. Ceir tan ddiwedd y flwyddyn i nodi rhywogaethau a chynefinoedd sy'n arbennig o bwysig i bob rhanbarth a pha opsiynau sy'n berthnasol.<br><br>Mae'r rhanbarthau eisoes wedi cael eu sgorio o ran rhywogaethau, nawr mae angen gwneud hynny o ran cynefinoedd. | 19. DL i gylchredeg y tabl sgorio ar gyfer cynefinoedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mwy na thebyg mai'r drefn fydd – os ewch chi am becyn rhanbarthol fe gewch 100% o'r pwyntiau ond pe baech yn gwneud yr opsiynau hynny i gyd ar wahân dim ond e.e. 95% o'r pwyntiau a gaech. Mae'n ymddangos y byddai'n well gan LlCC i ffermwyr gymryd y pecynnau fel bod 100% o'r pwyntiau'n dod o'r pecyn; dim pwyntiau ychwanegol am ymgymryd ag opsiynau ychwanegol.<br><br>Angen sicrhau bod y pecynnau'n ddigon tynn i osgoi sefyllfaoedd niweidiol e.e. cymryd pecyn âr ac aredig glaswelltiroedd. Codwyd pryderon gan y Grŵp Rhostir a Glaswelltir ynglŷn â diffyg swyddogion prosiect oherwydd gallai difrod ddigwydd i gynefinoedd heb i neb sylwi. | | |
| | Cynllun lefel uwch – wedi bod yn datblygu amodau rhagnodi ac yn cynhyrchu mapiau cynefin i ardaloedd â blaenoriaeth. CM yn mynd i geisio sicrhau bod cefnogaeth i'n bridiau cynhenid yn cael ei chynnwys.<br><br>Angen ystyried a ddylid pennu ble y dylid defnyddio gwartheg neu ddefaid a darparu tystiolaeth i ddweud pam.<br><br>Mae Arolygiaeth Wledig Cymru wedi awgrymu bod problem gyda nifer o gynefinoedd ar un llain. Nid yw RE yn credu y dylai hyn fod yn broblem gan eich bod yn dewis yr amodau rhagnodi ar gyfer y cynefin mwyaf sensitif yn y parsel. Mae angen inni ei gwneud yn glir i'r Arolygiaeth fod angen iddynt sefydlu system i fonitro bod y lleiniau hyn sydd â nifer o gynefinoedd yn cydymffurfio.<br><br>Cododd DL bryderon ynglŷn â defnyddio unedau da byw /ha yn | 20. Bydd RE yn siarad â Kevin Austin (LlCC) am leiniau aml-gynefin.<br><br>21. DL i lunio rhestr o'r pwyntiau allweddol a godwyd am broblemau gyda'r haen uwch a'i hanfon at HB cyn dydd Llun 19[eg] Hyd (cynnwys Wildlife Link yn y drafodaeth hon).<br>22. Bydd HB yn codi pwyntiau gyda Diana Reynolds yn y cyfarfod ddydd Llun 19[eg] Hyd ac yna'n anfon e-bost at DR yn gofyn am | JS wedi anfon e-bost ar 19[eg] Hyd at y Cadeiryddion i gyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hytrach na chanlyniadau h.y. x uchder porfa ar x adeg o’r flwyddyn. Credai’r grŵp fod angen y naill a’r llall, rhagnodi a dangos canlyniadau. Angen ymateb cydlynol i dîm Kevin Austin i bwyso o blaid darparu canlyniadau yn ogystal ag amodau rhagnodi, angen darparu tystiolaeth o pam mae’r ddau yn angenrheidiol.<br><br>Gellid darparu lluniau i gadarnhau canlyniadau cynefin 4 gwaith y flwyddyn.<br><br>Mae angen i ffermydd lwyddo wrth gael eu monitro, ni chânt byth yr holl ganlyniadau ar y rhestr felly mae angen cytuno ar gyfuniad o ganlyniadau sy’n dderbyniol i fynd drwy’r monitro’n llwyddiannus fel bod y fferm yn cael ei thaliad. Angen gwneud y pwynt, os ydych o ddifrif eisiau taro’r targedau mae angen cynlluniau rheoli safleoedd unigol arnoch mewn gwirionedd.<br><br>Mae swyddogion prosiect (er bod llai ohonynt) i fod yn rhagweithiol, yn mynd allan i ffermydd yn ardaloedd targed y mapiau cynefin. Bydd angen canllawiau ar y swyddogion prosiect ar bob cynefin. Yn ddelfrydol dylid defnyddio canlyniadau cynefin fel templed ac yna dewis y rhai sy’n briodol i’r safle unigol.<br><br>Beth yw’r canlyniadau gofynnol a’r canlyniadau delfrydol yr hoffech eu gweld – oes modd i rywle yn y canol fod yn dderbyniol?<br>Codwyd pwyntiau allweddol:<br>▪ Cynlluniau rheoli unigol yn hytrach na rhagnodi cyffredinol<br>▪ Canlyniadau yn hytrach na dim ond unedau da byw | gyfarfod â Kevin Austin i fynd drwy’r pryderon a godwyd am yr haen uwch<br>23. JS i anfon e-bost at gadeiryddion Grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau perthnasol i gael cytundeb ar faterion cyn dydd Llun 19eg Hyd. Hefyd, gofyn i Clare Burrows godi’r materion ynglŷn â chanlyniadau gyda Kevin Austin | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ▪ Egluro sut bydd swyddogion prosiect yn gweithredu (a fydd rhestr o arbenigwyr y gallant gysylltu â nhw i gael cyngor?) | | |
| | Bu CR ac SS yn y cyfarfod Stiwardiaeth Amgylcheddol yr wythnos diwethaf. Y brif neges oedd nad oedd y Cynllun Lefel Mynediad (CLM) wedi cynhyrchu unrhyw beth ar gyfer bioamrywiaeth (nifer fawr yn dewis yr opsiynau hawdd – oedd yr adolygiad ymchwil a datblygu wedi'i seilio ar dystiolaeth) a bod y Cynllun Lefel Uwch (CLU) yn dibynnu ar y swyddog prosiect ac nad oedd ond yn gweithio mewn gwirionedd lle'r oedd yna brosiectau arbennig. Caiff llwyddiant ei fesur ar ffurf cyflawni canlyniadau. | 24. CR ac SS drwy HB – anfon neges o'r grŵp hwn yn ôl at Kevin Austin nad yw'r CLM wedi cyflawni i fioamrywiaeth, copi i Dai Harris (gan ei fod ef hefyd yn y cyfarfod), Diana Reynolds a phobl berthnasol yn CCGC. | |
| **5. Cyfarfod Ariannu Glaswelltir** | Dangoswyd llawer o ddiddordeb, a daeth nifer dda i'r cyfarfod ariannu glaswelltir. Mae prosiect *Saving our Magnificent Meadows* (SMM) yn ceisio sicrhau ffrwd ariannu tymor hir ar gyfer glaswelltir yr iseldir ac wedi bod yn casglu gwybodaeth am yr ystyriaethau a'r anghenion perthnasol i brosiectau glaswelltir. Caiff y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfarfod ariannu ei chynnwys yn nogfen fframwaith SMM a ddefnyddir i roi gwybodaeth i gyllidwyr (bydd ar gael yn fuan iawn).<br>Mae angen i SMM recriwtio swyddog yn lle Donna Radley am 18 mis olaf y prosiect felly ar hyn o bryd mae'n ceisio dylanwadu ar y prif gyllidwyr yn hytrach na mynd am gais LIFE+. Fodd bynnag, bydd olynydd Donna yn helpu i hwyluso cais LIFE os penderfynir mai dyna'r trywydd y mae pobl am ei ddilyn.<br><br>Bydd dogfen fframwaith SMM yn ddogfen i'r DU, a ddylem gynhyrchu crynodeb o'r materion yng Nghymru y gallem i gyd | 25. JH – ychwanegu at y templed polisi a) sut gallwn ni gyfleu anghenion ariannu glaswelltiroedd i'r cyrff ariannu. b) yr angen i ariannu barhau lle na all prosiectau greu strategaeth barhau arall. | Wedi'i ychwanegu at y templed |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymrwymo iddo? Awgrymwyd y dylem hyrwyddo enghreifftiau o'r arferion gorau. Mae gan wefan PBC fersiwn wedi'i diweddaru o'r ddogfen llwyddiannau lleol, (bydd ar y wefan yn fuan), a gellir ychwanegu'r rhain (ffurflen er mwyn ychwanegu prosiect http://www.biodiversitywales.org.uk/what_can_the_wbp_offer_you-19.aspx. Hefyd, posibilrwydd o ychwanegu gwefan Flora Locale Wild Meadows http://www.floralocale.org/content.asp?did=24064.<br><br>Gweledigaeth Rhostiroedd a Glaswelltiroedd i Gymru – gallai dogfen fframwaith SMM a'r *Wild Meadows' Manifesto* fod yn sail i'r weledigaeth (mae Natural England wedi cynhyrchu gweledigaeth i wlyptiroedd, efallai y bydd yn mabwysiadu dolydd fel ymgyrch allweddol y flwyddyn nesaf).<br><br>Bydd y cyflwyniadau a'r nodiadau i gyd ar gael ar wefan PBC http://www.biodiversitywales.org.uk/new_page-143.aspx | | |
| **6. Diweddariad WWGAS** | Credai Carol Greenstock (swyddog ariannu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) fod WWGAS yn addas i wneud cais i Natur LIFE+ am orllewin Cymru yn ei gyfanrwydd, felly roedd swyddog ariannu Ewropeaidd yr YG yn dod draw i drafod y potensial. Cyfarfod ar 13eg Ionawr i gael yr holl setiau data ynghyd i nodi cyfres o safleoedd yn cynnwys cynefinoedd Atodiad 1 a Rhywogaethau Atodiad 2 ar gyfer cais LIFE+, yna cwrdd â swyddog ariannu Ewropeaidd yr YG ar 10fed Chwe.<br><br>Mae Tracy Loverin (CCGC) wedi nodi 25 o safleoedd Britheg y Gors yng ngorllewin Cymru sydd â photensial ar gyfer cais ariannu WREN. Yn gobeithio cynnwys Butterfly Conservation | 26. JS i gael Tracey i gysylltu â ffermwyr i sefydlu llythyrau caniatâd.<br>27. CM i siarad â Russel Hobson yng nghyfarfod y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaeth<br>28. CM i anfon tabl Ynys Môn at SS a JS<br>29. DL i anfon data adar GIS at JS<br>30. TD i anfon data planhigion | 26,27,28, 31 wedi'u cwblhau Yn disgwyl am fapiau rhywogaethau Glastir ar gyfer 29 a 30 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (gallai amser swyddog prosiect BC gael ei gynnwys yn y cais). Pe bai safleoedd yr YG yn cael eu cynnwys fel safleoedd arddangos yn y cais efallai y gwnâi'r YG arwain ar y prosiect.<br><br>Dylid monitro metaboblogaeth Britheg y Gors yn ogystal â'r safleoedd y bydd y prosiect yn gweithio arnynt. | GIS at JS<br>31. CM i hysbysu LBAPs Penfro, Caerfyrddin a Cheredigion o'r sefyllfa gyfredol gyda WWGAS | |
| **7. Cynllun Gweithredu Rhostiroedd** | Rhaid i arweinydd y camau gweithredu fod yn aelod o'r Grŵp Rhostir a Glaswelltir (yr arweinydd sy'n gwneud yn siŵr fod y bobl berthnasol yn gwybod am y gweithredu). Angen ychwanegu dyddiadau terfyn.<br><br>Cerrig milltir – mae Natural England yn gwneud rhywfaint o waith ar laswelltiroedd felly cyflwynodd CCGC gais am gynnwys safleoedd rhai caeau o Gymru.<br>Dylid defnyddio'r Grwpiau Ecosystemau a Rhywogaethau fel mecanwaith i ddarparu hyfforddiant.<br>Bydd JS yn rhoi gwybodaeth ddiweddaru ar y camau gweithredu yng ngoleuni'r camau gweithredu a'r targedau rhywogaethau a ryddheir gan y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau yr wythnos nesaf, wedyn bydd yn cylchredeg unrhyw ychwanegiadau oddi wrth gyrff eraill am sylwadau | 32. JS i gylchredeg y cynllun gweithredu Rhostiroedd wedi'i ddiweddaru.<br>33. Pawb, ychwanegwch unrhyw camau pellach at y cynllun wedi'i ddiweddaru.<br>34. JS i ychwanegu'r golofn rhif targed yn ôl i'r templed gweithredu fel bod modd nodi i ba darged y mae cam gweithredu yn cyfrannu. | Y drafft Rhostiroedd wedi'i gwblhau |
| **8. Diweddariad ar y Prosiect Dolydd Gwyllt** | Llwyddiannau:<br>▪ *Manifesto for meadows* wedi ysgogi cyfarfod â Mike Dunn (LlCC) ynglŷn ag Echel 2<br>▪ Digwyddiadau am ddim i dirfeddianwyr<br>▪ Rhwydwaith i bobl dolydd; rhannu gwybodaeth a phrofiadau<br>▪ 84 ymweliad safle hyd yma<br>▪ Cyflenwad o hadau o ffynonellau lleol, partneriaethau pwysig | 35. IB i gysylltu â Marie Madigan yn Natur ynglŷn â'r gynhadledd glaswelltir<br>36. Pawb, beth arall ddylai fod ar wefan Dolydd Gwyllt, sut mae modd ei defnyddio i'w llawn botensial, rhowch | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi'u sefydlu<br>▪ Cyhoeddiadau technegol<br><br><br>Anghenion:<br>▪ byddai'n fuddiol cael safleoedd arddangos i ddangos y gwahanol lefelau rheoli.<br>▪ digon o gyfle i gynnal rhagor o ymweliadau safle pe bai gweithwyr ar gael<br>▪ beth ddylai ddigwydd i wybodaeth a data'r prosiect pan/os daw i ben<br>▪ sut mae amddiffyn ansawdd caeau unigol (awgrymwyd y dylid hysbysu Canolfannau Cofnodion Lleol a'r swyddog LBAP a/neu swyddog cynllunio'r Ymddiriedolaeth Natur)<br>▪ Cynhadledd glaswelltir Cymru i rannu gwybodaeth a phrofiad (awgrymwyd bod IB yn siarad â Natur)<br>▪ Dim llawer o ddefnydd o'r wefan dolydd gwyllt; oes astudiaethau achos arni, beth fydd yn digwydd iddi pan ddaw'r prosiect i ben<br><br>Ystyriaethau:<br>▪ Pobl ddim eisiau delio â biwrocratiaeth<br>▪ Pobl eisiau cyswllt anffurfiol at wybodaeth<br>▪ Angen cefnogaeth (dal llaw pobl mewn rhai achosion)<br>▪ Parhad o ran y swyddog maen nhw'n gweithio gydag ef i fagu ymddiriedaeth<br>▪ Safleoedd diddorol nas cofnodir yng ngham I<br>▪ Ddylen ni dalu? Mae rhai o'r bobl hyn yn ddigon cyfforddus eu byd ond ni wnânt unrhyw beth oni bai fod yna arian i'w hysgogi | wybod i IB am unrhyw sylwadau<br>37. IB i gysylltu â Donna Radley i weld a oes unrhyw brosiectau cysylltiol y gallai Dolydd Gwyllt ymuno â nhw i wneud cais ariannu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ▪ Oed, pobl wedi ymddeol yn aml sydd â lleiniau bach o dir, beth sy'n digwydd i'r tir pan fyddan nhw'n mynd.<br><br>Mae'r prosiect i fod i orffen ym mhen 6 mis. – Awgrymodd CR fod hyn yn cyd-fynd â'r gwaith dysgu ac addysg y dywedodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri y byddai hi'n ei ariannu eleni. Ddylen ni hefyd ymchwilio i arian dros dro gan oherwydd gallai Cronfa Dreftadaeth y Loteri gymryd ychydig o amser.<br><br>A fyddai partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio gan ei bod hi'n gwneud gwaith tebyg? | | |
| **9. Adroddiad Monitro CCGC** | Ddim ar gael eto. Gwnaiff SS roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd. | 38. SS i ddiweddaru'r grŵp os bydd yr adroddiad monitro ar gael | |
| **10. Unrhyw fater arall** | Dyfodol PONT – daw'r arian i ben ym mis Gorffennaf. Yng nghyfarfod CCGC pwysleisiodd pawb mor bwysig yw PONT. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd bresennol efallai y bydd yn anodd i CCGC barhau i ariannu ar yr un lefel felly pe gallai cyrff partner gyfrannu rhywfaint at ariannu PONT i helpu i gael yr arian cyfatebol, byddai o gymorth i CCGC. Mae PONT hefyd wedi cyflogi contractwr i edrych ar opsiynau ariannu i'r dyfodol. | 39. Pawb, anfonwch unrhyw lythyrau'n cefnogi PONT at CR | Wedi'i wneud |
| **11. Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Y cyfarfod nesaf: 2il Mawrth 2010, yn Amwythig o bosib<br><br>Y cyfarfod dilynol, 24ain Mehefin | 40. JH i ganfod lleoliad i'r cyfarfod nesaf | Wedi'i wneud |
| | | | |